Trwyn cam

(ymddiriedaeth / penderfyniad)

Roedd hi'n dechrau tywyllu. Cerddai'r criw o fechgyn yn dalog drwy strydoedd y ddinas. Chwilio am drwbl oedden nhw, yn enwedig arweinydd y gang. Doedd ef ddim yn ofni neb na dim. Galwodd un o'r criw arno, "Hei, edrych pwy ydi hwnna ar gornel y stryd!" Cerddodd y giaffar, wrth i'r criw ei alw, yn hamddenol tuag at y dieithryn. Roedd y ddau bron yr un oed. Trodd y dieithryn tuag at y giaffar a phoeri yn ei wyneb a rhoi ei ddwylo yn ei boced a sefyll yn stond o'i flaen.

Gwenodd y giaffar arno a thynnu cyllell o'i boced. "Mi fuaswn i wedi dy dorri'n ddarnau oni bai i ti roi dy ddwylo mor sydyn yn dy boced. Gwell fyddai i ti ymuno efo ni fel aelod o'r gang.

Roedd gan bob un o'r gang lysenw a bedyddiwyd yr aelod newydd yn 'Trwyn Cam'. Wnaeth o ddim datgelu y noson honno nad oedd ganddo gyllell yn ei boced. Wnaeth o chwaith ddim datgelu nad dihiryn yn crwydro'r strydoedd oedd o, ond yn hytrach offeiriad.

Felly, beth oedd yr offeiriad hwn yn ei wneud yn ei ddillad ei hun yn cerdded strydoedd Naples wedi iddi nosi? Ar ôl i'r Ail Ryfel Byd ddirwyn i ben roedd llawer iawn o lanciau ifanc ar strydoedd Naples. Roedd rhai wedi rhedeg i ffwrdd a gadael eu teuluoedd. Roedd eraill wedi cael eu taflu allan am fod eu cartrefi yn rhy fychan i gynnwys yr holl deulu. Felly, ar y strydoedd yr oedden nhw'n begian, yn dwyn, yn byw ac yn cysgu. Y stryd oedd eu cartref bellach.

Newydd gael ei ordeinio'n offeiriad oedd 'Trwyn Cam', neu Y Tad Mario Borrelli i roi ei enw cywir iddo. Penderfynodd fod yn rhaid iddo helpu'r bechgyn ifanc oedd yn crwydro'r strydoedd. Dyna pam yr oedd o gyda'r nos yn gwisgo carpiau ac yn dilyn y giaffar a'r gang wedi iddi nosi. Doedd gan aelodau'r gang ddim syniad beth oedd Trwyn Cam yn ei wneud yn ystod y dydd. Yn y cyfamser roedd ffrindiau Borrelli yn atgyweirio ac yn glanhau hen eglwys oedd wedi mynd â'i phen iddi. Wrth i'r gwaith atgyweirio fynd yn ei flaen byddai rhai o'r offeiriaid yn mynd o gwmpas y tai i chwilio am hen flancedi a hen welyau. Penderfynodd un o aelodau'r eglwys ymweld â'r gang ryw noson i'w perswadio i ddod i'r eglwys i gael pryd o fwyd a gwely cynnes. Wrth gwrs, wnaeth o

ddim cymryd arno ei fod yn adnabod Trwyn Cam.

"Mi fydd y gaeaf ar ein gwarthaf ni yn fuan iawn," meddai un o aelodau'r eglwys wrth y gang, "a chithau heb unman i gysgu."

"O mi fyddan ni'n siŵr o gael hyd i rywle," meddai'r giaffar ar ran y gang.

"Ddim bob amser," meddai Trwyn Cam. "Ydych chi'n cofio'r helynt gawsom ni'r noson o'r blaen a'r heddlu yn ein herlid ni?"

"Edrychwch," meddai'r aelod o'r eglwys, "mae yna eglwys i lawr y ffordd ac mae yna ddigon o fwyd a gwely cynnes i bob un ohonoch."

"Offeiriad! Eglwys! Na dim diolch yn fawr," oedd ateb pendant y giaffar.

Ni ddywedodd neb ddim mwy y noson honno.

Ymhen wythnos union penderfynodd Trwyn Cam ei fod am fynd, yn ôl ei arfer, at y gang ond y tro hwn aeth yn ei ddillad offeiriadol. Gwisg ddu, dywyll a choler gron, wen. Doedd y bechgyn ddim yn ei adnabod ond, yn fuan, daethon nhw i weld mai offeiriad oedd Trwyn Cam wedi'r cwbl. Doedd y bechgyn ddim yn gas efo fo oherwydd roedd mor awyddus i'w helpu. Gan eu bod yn ymddiried ynddo fe aethon nhw efo fo i'r eglwys a chael pryd o fwyd a gwely i gysgu ynddo. Daeth rhai ohonyn nhw i ddysgu crefft a chael gwaith.

Treuliodd Trwyn Cam, Y Tad Borrelli, weddill ei oes yn helpu bechgyn ifanc oedd yn byw ar strydoedd Naples.

Adnod: "Bûm yn newynog ac mi roesoch fwyd i mi, bûm sychedig ac mi roesoch ddiod i mi." Mathew 25:42

Gweddi: Gwna fi, O Dduw, yn berson dewr a chadarn yn barod i wynebu unrhyw berygl er mwyn i mi gael helpu fy nghyd-ddyn. Amen.

Trafod:

- Ydych chi'n meddwl fod y Tad Borrelli wedi gwneud peth doeth yn mynd yn aelod o'r gang?
- Fyddech chi'n dweud mai gwaith yr eglwys ydi byw "er mwyn eraill"?